

GWERS 100

CYFLWYNYDD: CENNARD DAVIES

NOD: Dysgu sut i ofyn am bethau / gwasanaethau ac ati - parhad.

Geirfa

rhoi	-	to put, give	berwi	-	to boil
estyn	-	to pass			
llaeth	-	milk	llefrith N.W.	-	milk
halen	-	salt	finegr	-	vinegar
pupur	-	pepper	saws	-	sauce
pawb	-	everyone	siwgr	-	sugar
teisen(nod) f	-	cake(s)	tegell	-	kettle
ffrwythau	-	fruit	bara brith	-	traditional
brechdan(au) f	-	sandwich(es)			currant bread
pice ar y maen	-	Welsh cakes	treiffl	-	trifle
halen	-	salt			
mwy (o)	-	more (of)	digon (o)	-	enough (of),
llai (o)	-	less (of)			plenty (of)
ychydig (o)	-	a little (of)	gormod (o)	-	too much (of)
hefyd	-	too, also	byth	-	never
glasaid o	-	a glass of	bron	-	nearly, almost
braf	-	nicely	ynddyn nhw-		in them
dyna	-	that's	dim byd aral	-	nothing else
chwaith	-	either	wn i ddim	-	I don't know
ychydig rhagor o	-	a little more			
ychydig mwy o	-	a little more			
ychydig llai o	-	a little less			

RHAN 1

1. The 'cael' forms are useful

Ga' i?	Gawn ni?
Gei di?	Gewch chi?
Gaiff e/hi/Tom?	Gân nhw?

Ga' i fwy / lai?
- May I have more / less?

Gawn ni fwy o datws?
- May we have more potatoes?

Ga' i ychydig o siwgr?
- May I have a little sugar?

Gaiff Tom lai o siwgr yn ei de?
- May Tom have less sugar in his tea?

2. 'Mwy', 'lai', 'digon', 'gormod'. can be used on their own:

Dw i eisiau **mwy**.
- I want **more**.

Ga' i **lai**.
- May I have **less**?

Does dim **digon** 'da fi.
- I haven't got **enough**.

Oes **gormod** 'da ti (gen ti)?
- Do you have **too much**?

They can also be used with 'o' + noun

Mae e eisiau **rhagor o fwyd**.
- He wants **more food**.

Oes **digon o datws** 'da hi?
- Has she got **enough potatoes**?

Oes **digon o halen** yn y tatws?
- Is there **enough salt** in the potatoes?

Mae **digon o fresych** i bawb.
- There is **enough cabbage** for everyone.

3. We can extend our sentences by adding 'ychydig' or 'llawer'

'Dw i eisiau **ychydig rhagor** o laeth.
- I want **a little more** milk.

Rhowch **ychydig llai** o siwgr yn y coffi, os gwelwch yn dda.
- Put **a little less** sugar in the coffee, please.

Maen nhw eisiau **llawer mwy** o siwgr yn eu coffi.
- They want **far / a lot** more sugar in their coffee.

4. Remember that 'o' causes a Soft Mutation.

digon o **datws**
rhagor o **fwyd**

RHAN 2

1. 'Fasech chi' is a slightly more formal way of requesting a service
(**'Would you . . .?'** rather than **'Will you. . .?'**)

Fasech chi'n estyn y siwgr, os gwelwch yn dda?
- **Would you** pass the sugar please?

Fasech chi'n cau'r drws? Diolch.
- **Would you** close the door? Thanks.

Other persons of the verb can be used of course

Fasai Mari'n berwi'r tegell?
- **Would Mari** boil the kettle?

Fasen nhw'n gwneud pice ar y maen?
- **Would they** make Welshcakes?

2. We could extend our questions by adding 'cystal â'

Fasech chi **cystal â** gwneud y te?
- Would you **kindly** make the tea?
- Would you be **so good as** to make the tea?

Fasai hi **cystal â** thorri'r bara menyn?
- Would she **kindly** cut the bread and butter?
- Would she be **so good as** to cut the bread and butter?

Faset ti **cystal ag** estyn y siwgr?
- Would you be **so good as** to pass the sugar?

Notice that 'â' becomes 'ag' in front of a vowel.

3. Sgwrs

Alun: Beth rydych chi eisiau, Bryn? Te neu goffi?
Bryn: Ga' i gwpanaid o de, os gwelwch yn dda, Alun?
Alun: Cewch â chroeso. Ydych chi'n cymryd llaeth?
Bryn: Ydw - a siwgr hefyd.
Alun: Hoffech chi ragor o laeth?
Bryn: Ychydig, os gwelwch yn dda. Dyna ddigon.
Alun: 'Dw i byth yn yfed te. Fe gymera' i lasaid o lemonêd.
Ond mae cinio bron yn barod.
Bryn: Mae'r tatws yn berwi'n braf ar y stôf - a'r moron hefyd.
Alun: Ydyn. Estynnwch fforc i mi Bryn i weld ydyn nhw'n barod.
Bryn: Dyma chi. Oes digon o halen ynddyn nhw?
Alun: Wn i ddim. Fe roia i ychydig rhagor, i fod yn siŵr.
Bryn: Alun, mae'n ddrwg 'da fi ond 'dw i ddim yn hoffi moron.

Alun: Wel, does dim byd arall 'da fi. Fe fydd rhaid i chi fwyta tatws a chig.
Bryn: Wn i ddim sut i ddweud hyn, Alun, ond 'dw i ddim yn
bwyta cig chwaith. Ond beth ydy'r pwddin?
Alun: Ffrwythau. Oren neu fanana.
Bryn: Mae'n gas 'da fi fananas ond rydych chi'n lwcus - 'dw i'n hoffi orenau!
Alun: Lwcus, wir!